



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIAANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

13 Tachwedd 2020

9:00 am to 13:30 yp

Trwy gyfrwns MS Teams

Yn bresennol:	Teresa Owen, Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones, Morwena Edwards, Bethan E Jones (cyrhaeddodd am 9:30 am), y Cynghorydd Bobby Feeley, y Cynghorydd Christine Jones, y Cynghorydd Joan Lowe (JLo), y Cynghorydd Louise Emery (yn bresennol tan 11:00 am), y Cynghorydd Dafydd Meurig (yn bresennol tan 10:50 am), Dr Lowri Brown, Estelle Hitchon, Fon Roberts, Helen Corcoran, Jenny Williams (yn bresennol tan 10:45 am), John Gallanders(JGa), John Gladston (JGI), Judith Greenhalgh (JGr), Kevin Roberts, y Cynghorydd Llinos Medi Huws, Lucy Reid, Mark Wilkinson (MWil), Mary Wimbury (MWim), Neil Ayling, Peter Williams, Roma Hooper, Sam Parry.
Ymddiheuriadau:	Ffion Johnstone, Shan Lloyd Williams, Lynda Colwell, Clare Budden, Nicola Stubbins, Chris Stockport, Rob Smith, Catherine Elaine Jones, Julie Annets, Arweinydd Polisi Awtistiaeth Llywodraeth Cymru.
Hefyd yn bresennol:	Imogen Blood, Ymgynghorydd, Practice Solutions Limited (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen) Rhian Allen, Ymgynghorydd, Practice Solutions Limited (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen) Rhian Edwards, Cyfarwyddwr Masnachol, Canolfan Cydweithredol Cymru (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen) Maria Bell, CLILC (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen) Carol Dale, Rheolwr Prosiect Rhanbarthol, Gweithlu (ar gyfer eitem 3 ar y Rhaglen) Sara Harvey, Arweinydd Strategol Cenedlaethol, y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (ar gyfer eitem 4 ar y rhaglen) Christine Burns, Rheolwr Gwasanaeth, Tîm Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig (IAS) Gogledd Cymru Sarah Bartlett, Rheolwr Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant Gogledd Cymru, Tîm Cydweithredu Rhanbarthol (ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen)

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Rhoddodd MWim, yr is-gadeirydd, groeso ffurfiol i aelodau newydd BPRhGC; Dr Lowri Brown, yn cynrychioli Addysg Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a Sam Parry, yn cynrychioli Tai Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru. Diolchodd yr is-gadeirydd hefyd i PW, gan mai dyma ei gyfarfod olaf, am ei gyfraniad i'r Bwrdd dros y 2 flynedd diwethaf fel cynrychiolydd Gofalwyr, a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Cadeiriodd MWim y cyfarfod o 9.00am hyd nes i TO gyrraedd am 10.20am.

Mae cyfieithu ar y pryd yn cael ei dreialu yng nghyfarfod heddiw.

2 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 11.10.2020 yn gofnod cywir.

Camau Gweithredu a Gwblhawyd

- Cynlluniau ar gyfer y Gaeaf – ar raglen heddiw
- Strategaeth Dementia ac adroddiad – ar raglen heddiw
- Mae aelodau etholedig wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynglŷn â dyraniad dangosol ar gyfer 21/22 ac mae ymateb wedi ei dderbyn gan y Gweinidog.
- Mae achosion busnes terfynol y Rhaglenni Trawsnewid wedi eu hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru.
- Rhoddodd AJ ddiweddariad o'r cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru ar 2.11.2020 i drafod y dyraniad cyfredol posib ar gyfer y Rhaglenni Trawsnewid ac i drafod dyraniad uwch ar gyfer cyllid yn 2021/22. Heriodd LIC ffrydiau cyllido sy'n gwneud gwaith tebyg, gan ddweud na fydd y rhanbarth yn derbyn y cyfanswm sy'n cael ei holi amdano. Mae BJE yn gweithio ar un achos busnes diwygiedig sy'n ymwneud â'r pedair rhaglen, sydd angen ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru erbyn dydd Llun 16.11.2020. Diolchodd AJ i BJE ac Arweinwyr Rhaglenni am wneud y gwaith enfawr sydd angen ei wneud i gwblhau'r gwaith o fewn cyfnod byr o amser.
- Mae'r holl ddiwygiadau wedi eu gwneud i'r Adroddiad Blynyddol ac wedi eu hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru erbyn 30.10.2020. Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd wedi ei gylchredeg i bartneriaid statudol er mwyn iddynt fynd â'r adroddiad drwy eu prosesau llywodraethu.
- Mae dogfennau Adolygiad Cyflym Deddf y Coronafeirws 2020 wedi eu cylchredeg ar wahân i aelodau'r Bwrdd.
- Profi o fewn Cartrefi Gofal

Camau Gweithredu sydd eto i'w cwblhau

- Ffocws a Blaenoriaethau – mae'r ddogfen bellach wedi'i diweddaru mewn perthynas â Covid fel y gofynnwyd mewn cyfarfod blaenorol. Aros am

gymeradwyaeth y Cadeirydd, cyn gynted ag y bydd y Cadeirydd yn cytuno bydd yn cael ei roi ar raglen y Bwrdd.

3 Ymchwil a Datblygiad o ran sefydlu asiantaeth staffio gydweithredol aml-fudd-ddeiliaid ar gyfer Gogledd Cymru (Prosiect Her Economi Sylfaenol PHES)

Cyflwynodd JW y PHES, gan roi cyd-destun i'r eitem hon ar yr agenda a throsolwg o'r gwaith sydd wedi ei wneud hyn yma. Yn ei rôl fel cadeirydd Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru (BGGC), atgoffodd JW mai'r Gweithlu yw un o'r meysydd o bwys a drafodwyd o fewn adroddiad blynyddol BGGC, a'r heriau a wynebir o safbwynt atynnu, recriwtio, a chael gafael ar weithlu cymwys o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Practice Solutions Ltd (PSL) wedi eu comisiynu i gynnal prosiect ymchwil a datblygu er mwyn cwmpasu a chynhyrchu achos busnes ar gyfer sefydlu asiantaeth staffio gydweithredol aml-fudd-ddeiliad, i gyflenwi gweithwyr iechyd a gofal i gyflogwyr y sector annibynnol, Awdurdodau Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar gyfer swyddi gwag yn y tymor byr a'r hir dymor.

Darparodd RA (PSL) y gyrrwyr strategol lleol a chenedlaethol ar gyfer y gwaith hwn; Cymru Iachach (AHW), Cynllun Ardal Rhanbarthol Gogledd Cymru, Deddf Lles a Gwasanaethau Cymdeithasol Act (A.16) a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r heriau cyfredol mae'r prosiect am geisio mynd i'r afael â nhw yn cynnwys trosiant uchel o staff / swyddi gwag yn iechyd a gofal cymdeithasol, tâl amrywiol mewn swyddi sydd yr un fath o fewn y bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol, effaith Brexit, gofynion cymwysterau a'r swm anferth sy'n cael ei wario ar staff asiantaeth gan Ddarparwyr, Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu'r pwyntiau o bwysau / yr angen i gyflymu gofal yn nes at y cartref, a'r cyfle i atynnu pobl newydd i'r sector.

Nod y prosiect yw archwilio modelau darparu amgen ar gyfer atynnu a recriwtio'r nifer angenrheidiol o staff cymwys / cofrestredig i fodloni'r galw cyfredol a'r twf mewn galw fydd yn y dyfodol, a hynny drwy ymgysylltu, cipio data ac ymchwil, opsiynau a datblygu achosion busnes.

Eglurodd IB mewn manylder beth yw'r modelau gwahanol y gellid eu hystyried ar gyfer eu datblygu yn y rhanbarth o'r adolygiad cychwynnol ac mae'r NWWB eisiau cael adborth gan y Bwrdd er mwyn llywio'r achos busnes:

- Dull cydweithredol wedi'i arwain gan ddefnyddwyr o safbwynt comisiynu gofal, gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol;

- Cwmnïau cydweithredol wedi'u rhedeg gan weithwyr / modelau eraill dan berchnogaeth gweithwyr; Cwmni cydweithredol 'cynhyrchwyr'
- Asiantaeth neu fanc recriwtio staff dielw;
- Cwmni masnachu awdurdod lleol;
- Cytundeb gweithlu.

Eglurodd RA y papur arfarnu opsiynau a'r gwahaniaethau rhwng y modelau o safbwynt y 5 maen prawf gwahanol.

Dull cydweithredol wedi'i arwain gan ddefnyddwyr o safbwynt comisiynu gofal, gan ddefnyddio taliadau uniongyrchol;

Unigolion yn defnyddio eu taliadau uniongyrchol (TU) i gyd, neu rannau ohonynt, gydag asiantaethau er mwyn prynu cymorth. TU i gyflogi staff i adeiladu arbedion maint – gyrru hwn i fyny er mwyn gwella'r broses recriwtio a chadw staff.

Cwmnïau cydweithredol wedi'u rhedeg gan weithwyr / modelau eraill dan berchnogaeth gweithwyr

Nid er elw – gwariant cychwynnol i sefydlu, diben craidd fyddai gwella tâl ac amodau. Byddai'r model hwn yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gyda gwahanol ffrydiau cyllido a'r posibilrwydd o groes gymorthdaliadau. Mae gweithwyr yn cael barn ar swyddogaeth y gwasanaeth, ac mae buddion yn cynnwys cynnal staff, gwell gwasanaeth, gwell gwerth drwy ddiddymu rheolwyr.

Cwmni masnachu awdurdod lleol – yr Awdurdod Lleol yn berchen arno yn llwyr, pecyn staff ardderchog – costau teithio, shifftiau, datblygiad gyrfael, tâl gwyliau ac ati.

Bargen dâl y gweithlu – mae amodau tâl amrywiol isel yn ysgogwr allweddol yr ymgyrch recriwtio. Byddai'r model hwn yn darparu gwell tâl ac amodau ym mhob rhan o'r gwasanaeth, yn gwella'r broses o recriwtio a chadw staff, ac yn lleihau symud rhwng cyflogwyr. Byddai angen dod o hyd i'r gost ychwanegol o rywle, a gallai hynny fod yn broblem i ddarparwyr, gyda darparwyr mawr yn gadael y farchnad os na fyddai'n gwneud elw bellach, a darparwyr bach yn methu dod o hyd i'r arbedion maint angenrheidiol.

Consortiwm darparwyr – nifer o ddarparwyr yn dod ynghyd i ffurfio cwmni cydweithredol. Potensial ar gyfer cwmni cydweithredol cynhyrchwyr lleol, lle mae cartrefi gofal, asiantaethau gofal cartref a microfentrau yn rhannu staff neu amrywiaeth o swyddogaethau swyddfa gefn, staffio, recriwtio, a hyfforddiant er budd cydfuddiannol – yn ogystal â chredu mewn gwasanaethau di-dor i unigolion, gan greu arbedion drwy rannu.

Gall rhedeg eu menter eu hunain wella hawliau a chanlyniadau gwasanaeth gweithwyr, a helpu hefyd gydag arolygon, newid staff ar gyfer anghenion hyfforddi ac argyfyngau, ymgyrchoedd hysbysebu ar y cyd, partneriaethau rhwng colegau ac ati.

Dywedodd RA mai'r fargen gweithlu oedd wedi sgorio uchaf o fewn yr arfarniad opsiynau yn erbyn y meini prawf, fel cwmpas i greu endid roedd hwn yn fwy o weithred strategol.

Soniodd RA hefyd am liferi o'r brig i lawr ac opsiynau ymyrraeth uniongyrchol o ran dylanwadu a faint o alw sydd yna am ymyrraeth uniongyrchol o'r brig i lawr, neu ai'r nod yw model sy'n cael ei arwain gan y sector / gweithwyr.

Cwestiynau:

Pwysleisiodd y Cyng BF bwysigrwydd technoleg; roedd diffyg cysylltedd digidol mewn rhai ardaloedd ac mae cyfran fawr o bobl dros 65 oed yng Nghymru yn dal heb gysylltiad. Mae'r Cyng BF wedi cael gwybod ers nifer o flynyddoedd y bydd y rhanbarth yn cydweithio ar dâl a chyfrifoldeb, gyda gwahaniaethau mewn tâl a chyfrifoldebau i'w gweld o fewn y sector.

Nododd JGal hefyd fod nifer o'r awgrymiadau wedi bod o gwmpas ers blynyddoedd a holodd beth yw'r gwersi a ddysgwyd ynglŷn â beth sydd wedi rhwystro'r mentrau rhag symud ymlaen.

Diolchodd NA i Practice Solution am y cyflwyniad cynhwysfawr. Mae dull gweithredu Cyngor Sir y Fflint o dyfu gofal micro o'r gwaelod wedi bod yn flaenoriaeth dros y 3 blynedd diwethaf. Pwysleisiodd NA hefyd y pwysigrwydd o fod yn gydymdeimladwy gyda darparwyr cyfredol yn y gwaith hwn a bydd sicrhau cyllid Llywodraeth Cymru o'r economi i gefnogi PHES yn hanfodol bwysig.

Dywedodd AH fod bargaen dâl gweithlu yn werthfawr. Fodd bynnag, mae hyn yn gymhleth o safbwynt y newid strategol ac awgrymodd opsiwn arall i'w ystyried: bargaen gweithlu sengl, telerau ac amodau ar gyfer Gogledd Cymru neu pob gweithiwr yn derbyn tâl / telerau ac amodau ar yr union yr un lefel; fel ffordd amgen i gryfhau'r farchnad, a byddai cymharu'r cynnig hwn yn fuddiol.

Roedd ME yn falch o weld fod y gwaith yn GC wedi cael ei sylwi arno. Mae'r achos busnes yng Ngwynedd yn seiliedig ar newid arfer staff o weithio'n lleol, ond mae taliad chwyddo yn rhan o hyn. Mae'r cynllun peilot wedi dangos arbedion a gwella ansawdd cymorth drwy roi mwy o gyfrifoldeb i staff. Mae adborth ardderchog wedi ei dderbyn gan drigolion o ymgorffori Plant mewn timau lleol ac ystyried tâl ar y cyd.

Nododd LR hefyd y cyflwyniad cynhwysfawr oedd yn cynnwys opsiynau cyffrous, croesawodd y drafodaeth gyda'r gweithlu sydd yn broblem ar draws Gofal a lechyd Cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae'r pandemig wedi cronni unigolion at ei gilydd, a allai o bosib ymgysylltu gyda'r sector.

Nododd y Cyng LIM bryder o ran yr elfen gyllido ac roedd yn cytuno gyda NA y byddai angen cael gafael ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Byddai'n well gan DM archwilio'r dull gweithredu lleol o'r gwaelod i fyny, yn hytrach na gorfodi dull rhanbarthol ar gymunedau.

Nododd MWim ei bod yn siomedig os na fyddai bargaen dâl yn cynrychioli darparwyr yn cael ei ystyried, ac mae'n awyddus i weld sefyllfa o wobrwyo a chadw gweithwyr gofal o fewn cartrefi gofal, gyda'r rhan fwyaf o staff un ai ar neu o dan yr isafswm cyflog cyfreithiol.

Dywedodd MB fod y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn gweithio gyda chomisiynwyr lleol a rhanbarthol a darparwyr i ddatblygu cyfrifyddion costau yn seiliedig ar gyflog byw gwirioneddol, er mwyn helpu i gyfrifo'r bwlch cyllid. Bydd hyn yn cael ei rannu gydag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ac mae hefyd yn cael ei adrodd drwy CLILC.

Dywedodd ME fod gofal cymdeithasol yn hanfodol i lwyddiant a chynaliadwyedd y GIG, yn ogystal â derbyn adnoddau digonol gan Lywodraeth Cymru, gyda thystiolaeth ei fod yn darparu gwerth ardderchog am arian, os na fydd gofal cymdeithasol yn gynaliadwy, fydd y GIG ddim yn llwyddo.

Dywedodd MB fod yr NCB hefyd wedi trafod fel rhan o'r prosiect, ei sgôp i estyn allan at fyfyrwyr iechyd a gofal colegau er mwyn rhoi profiad gwaith â thal iddynt gyda gwahanol gyflogwyr ac mewn lleoliadau gwahanol – gan fod ymchwil yn awgrymu nad ydynt yn deall yr amrywiaeth o rolau o fewn gofal cymdeithasol.

Gofynnodd JGa a oedd iechyd yn dod â myfyrwyr i'r gofrestr cyflogau yn gynt oherwydd Covid er mwyn llenwi bylchau, a oes angen i ni ystyried cyfleodd hyfforddiant a gwaith, yn debyg i'r hen ddull o 'hyfforddiant rhyngosod'.

Gofynnodd JGr a oes unrhyw wedi archwilio pam ei bod mor anodd recriwtio yn y sector yma – a yw hyn yn gysylltiedig â thâl neu a oes unrhyw faterion eraill? Ac awgrymodd ganolbwyntio ar y mater, byddai'r model yn dilyn.

Dywedodd RA (PSL) bod yr elfen leol wedi ei hystyried wrth ystyried yr opsiynau gwahanol, gan fod demograffeg yn wahanol ar draws y rhanbarth.

Diolchodd JW i'r Bwrdd am drafodaeth ac adborth gwych a nododd ychydig bwyntiau:

- Bargaen dâl – mae grŵp gweinidogol Llywodraeth Cymru yn edrych ar gydraddoldeb a statws hyn, angen darparu'r dystiolaeth er mwyn i'r gwaith hwn gael ei symud yn ei flaen, mae oedi wedi bod oherwydd Covid-19.
- Cydnabod fod yn rhaid i waith gael ei gyllido yn briodol – dim goblygiadau cyllideb i unrhyw un ar hyn o bryd.

- Cyfle i roi tro ar ymgyrch gref a dull cryf o weithio er mwyn sicrhau bargaen ac amodau da, yn ehangach na'r llwybrau traddodiadol, pob cydweithiwr yn ymrwymo i'r un agenda ym mhob ffordd er mwyn ychwanegu gwerth.
- Yr Iaith Gymraeg – nodwedd unigryw o safbwynt diwylliant yn cefnogi'r iaith Gymraeg
- Uchelgais Gogledd Cymru gyda dulliau darparu gwahanol – darpariaeth leol (Ymgynghorwyr Practice Solution i symud y gwaith hwn yn ei flaen)
- Cefnogaeth ar gyfer yr agenda strategol, gwaith pellach ar y daith, ystyried modelau mwy priodol o ddarparu
- Mae'r BGGC yn cael ei gynrychioli gan y rhan fwyaf o sefydliadau gyda'r gallu i symud ymlaen â'r gwaith hwn.

Cynigiodd JG pan fydd cais cadarn ar gael gellir mynd ag ef drwy brosesau llywodraethu pob sefydliad.

Ychwanegodd ME y byddai adroddiad o gymorth i lywio datblygiad ym mhob sir, er fod tâl a chyllido yn fater gwahanol. Atgoffodd ME'r pwyllgor hefyd y bydd y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol yn cael ei gysylltu'n agos â'r gwaith hwn.

Mae Ymgynghorwyr Practice Solution hefyd ar gael i gyflawni gweithdai i sicrhau fod cymaint o unigolion â phosib yn ymwybodol o'r drafodaeth hon.

Cam Gweithredu

- y BGGC i baratoi adroddiad ar gyfer sefydliadau.

4 Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI)

Cafodd y bwrdd ddiweddariad ar gynnydd y gwasanaethau ar gyfer pobl awtistig a'u rhieni a gofawyr pobl awtistig ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Soniodd NA am y cynnydd da a wnaed ym mhob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd ar draws y rhanbarth, gan gydnabod y gwaith a gwblhawyd gan yr holl arweinwyr unigol.

Cyfeiriodd SH at drosolwg strategol bras y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (TAC):

- Mae'r TACyn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a'i gynnal gan CLILC, gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mae'n gweithio mewn partneriaeth agos gyda Llywodraeth Cymru, Arweinwyr Awtistiaeth Lleol o fewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd, budd-ddeiliaid allweddol a grwpiau ymgynghorol.
- Mae ymgynghori yn digwydd ar y Cod Ymarfer ar hyn o bryd, hyd nes 14.12.2020. Anogodd SH yr holl aelodau i ystyried ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae Adran 4 y Cod Ymarfer hefyd yn nodi fod yn rhaid i'r Asesiad Poblogaeth ranbarthol hefyd gynnwys faint o bobl awtistig sydd angen cyngor, gofal neu gymorth, a faint o ofalwyr pobl awtistig sydd angen cymorth yn eu rhanbarth. Rhaid i'r Cynllun Ardal cysylltiedig gynnwys adolygiad o ddarpariaeth awtistiaeth.

Rhaid sefydlu rôl cefnogwr awtistiaeth hefyd yn unol â'r Còd drafft. Mae'r holl ofynion eisoes wedi eu hystyried gan y Bwrdd.

- Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, bwriad TAC yw rhoi cynllun strategol Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig ar waith ym mis Medi 2021.
- Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei gyhoeddi yr wythnos hon. Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfres o glipiau sain a gwybodaeth a gasglwyd o adborth o bob rhan o Gymru. Soniodd SH am Atodiad 1 o fewn yr adroddiad blynyddol - mynediad at gyfres ddata newydd o wasanaethau IAS.
- Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi adnewyddu ac ail frandio eu gwefan gwbl ddwyieithog www.AutismWales.org / www.AwtistiaethCymru.org

Mae hwb gwybodaeth Covid wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda'r Trydydd Sector sydd yn rhoi cyngor uniongyrchol, ac mae ar gael ar y wefan. Cadarnhaodd SH hefyd fod yr wybodaeth ar gael eisoes ar y cyfeiriadur o wasanaethau 111 / Galw lechyd Cymru

Canmolodd SH Ogledd Cymru ar ymgysylltu'n weithredol gyda phobl Awtistig, gydag enghreifftiau cryf o ymgysylltu.

Rhoddodd CB ddiweddariad cryno ar benawdau data GAI Gogledd Cymru, gan ddarparu trosolwg o'r nifer o atgyfeiriadau, asesiadau a diagnosis ar draws Gogledd Cymru.

Soniodd CB am y rhaglen o ddigwyddiadau agored oedd wedi eu gohirio o ganlyniad i Covid-19. Roedd llinellau ffôn wedi aros yn fyw drwy gydol y cyfnod, gydag asesiadau diagnostig ar-lein hefyd yn cael eu treialu.

Roedd y Bwrdd yn gytûn y dylai TAC a GAI Gogledd Cymru ddiweddarau'r canlynol yn benodol:

- yr effaith bosib ar y Bwrdd ei hun a phartneriaid cyfansoddol Cod Statudol Ymarfer ar ddarparu gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru
- yr enghreifftiau o "astudiaethau achos" a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol

Cyfeiriodd SH at y canllawiau a etifeddwyd gan y tîm blaenorol oedd yn cyfeirio at wasanaeth pob oedran. Mae hyn yn anghywir gan mai gwasanaeth ar gyfer

oedolion yw yn eu hanfod, a bydd yr GAI yn cysylltu i mewn gyda'r gwasanaeth ND, gyda phlant yn cael eu cyfeirio at wasanaeth arall. Mae cyfres newydd o ganllawiau wedi eu cynnwys ar y wefan. Amlygodd SH bwysigrwydd cysylltu ND a'r GAI, fel tîm cenedlaethol ac o safbwynt Llywodraeth Cymru.

Cefnogwr awtistiaeth ar gyfer yr BPRh.

Gan fod y gwasanaeth GAI yn cael ei gynnal gan Gyngor Sir y Fflint, enwebodd y Cyng BF y Cyng CJ i fod yn Gefnogwr Awtistiaeth yr BPRh, a derbyniodd y Cyng CJ. Rhoddodd TO ei henw ymlaen hefyd i gynorthwyo'r Cyng CJ fel cefnogwr. Ychwanegodd SH y byddai tîm cenedlaethol GAI yn cynorthwyo'r Cyng CJ gyda'r rôl.

5 Dogfennau Strategol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i'w cymeradwyo

Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (AAB)

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan SB ar Adolygiad Cyflym yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Dywedodd SB fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynnal adolygiad cyflym o'r Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth mewn amserlen dynn o 8 wythnos. Am y rheswm hwn rhoddwyd cynnig ymlaen am adnewyddiad cyffyrddiad ysgafn, yn crynhoi'r ymchwil ar effaith, y canfyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd gan Covid-19.

Roedd casgliad y cais yn cefnogi'r angen i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru barhau i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau, gydag egwyddorion cyson y nododd yr adolygiad cyflym ar gyfer y gwaith hwn:

1. Hyrwyddo cynhwysiant digidol – fod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau â mynediad at dechnoleg a chysylltiad yn ogystal â'r sgiliau i'w ddefnyddio.
2. Dull gweithredu cynhwysol tuag at ail ddylunio gwasanaethau – tra bod manteision i weithio o bell yn ystod y pandemig, nid yw hyn yn gweithio i bawb nac o dan yr holl amgylchiadau.
Gwasanaethau newydd i'w gwerthuso yn ofalus i nodi a lliniaru niwed posib.
3. Dull gweithredu yn seiliedig ar hawliau – o ran cyfnodau clo yn y dyfodol ac agor gwasanaethau i liniaru niwed a achosir gan ail ddylunio polisïau i reoli lledaeniad y feirws, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau mewn polisi cydgyhyrchol ac ymateb a bod a llais a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

Diolchodd TO i SB am arwain ar y gwaith, a hynny o fewn amserlen dynn gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi derbyn cymeradwyaeth fawr, yn lleol ac yn genedlaethol.

Roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cytuno i gymeradwyo'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ac ymrwmo i fynd ag Adolygiad Cyflym yr Asesiad drwy brosesau cymeradwyo lleol i gefnogi lledaenu'r argymhellion a'u mabwysiadu mewn cynlluniau adfer lleol.

Cynllun y Gaeaf - Bethan Jones Edwards

Rhannodd BJE Gynllun y Gaeaf gydag aelodau'r bwrdd i'w cymeradwyo gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae fersiwn drafft o Gynllun y Gaeaf eisoes wedi ei anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru ar 30.10.2020.

- Mae'r Cynllun Gaeaf oedd ei angen eleni yn llawer mwy trylwyr nag mewn blynyddoedd blaenorol.
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod tra bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi gorfod paratoi y cynllun, roedd byrddau iechyd eisoes yn gweithio ar eu cynlluniau fframwaith Chwarter 3 a 4.
- Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn i gynllun y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol adlewyrchu gweithgarwch gwasanaethau iechyd a gofal yn ogystal â gweithgarwch ehangach o safbwynt gofal cymdeithasol y gaeaf gan gynnwys y Trydydd Sector a'r Sectorau Annibynnol.
Roedd yr Byrddau Gwasanaethau Integredig Ardal yn hanfodol er mwyn bwydo'r wybodaeth hon i mewn.
- Gofynnodd Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar y 'pedwar math o niwed' sy'n deillio o Covid 19, y risgiau a nodwyd, a sut i fynd i'r afael â nhw:
 - Niwed gan Covid-19 ei hun
 - Niwed o'r GIG a'r system gofal cymdeithasol sy'n cael eu llethu
 - Niwed o leihad mewn darpariaeth nad yw'n ymwneud â Covid-19
 - Niwed o gyfnodau clo cymdeithasol ehangach
- Roedd Cynllun y Gaeaf hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar ryddhau i Adfer / Mynediad (D2RA) wedi ei rannu i gynllun cyflawni a gweithgarwch ehangach.

Gofynnodd MWim, ar ran ardaloedd eraill o Gymru, pa wybodaeth sy'n cael ei rannu gyda'r sector gofal cymdeithasol, darparwyr y sector a chartrefi gofal yn benodol o ran staffio, gyda chynnydd wedi ei weld mewn profion positif ac argyfyngau posib o ran materion staff cartrefi gofal. Gofynnodd MWim yn

benodol am enwau cyswllt timau argyfwng, y tu allan i oriau (OOH), ac os yw hyn yn wybodaeth gyson sydd eisoes yn cael ei gyfathrebu i ddarparwyr.

Eglurodd BJE fod gan bob Awdurdod Lleol ei beirianwaith ei hun ar gyfer cysylltu â chartrefi gofal, ac y gellir rhannu gwybodaeth gyswllt ar gyfer pob ardal y tu allan i'r cyfarfod hwn, ar gais.

Gofynnodd JGI a oedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynhyrchu gyda'r cynllun hwn.

Atebodd BJE nad oedd asesiad o effaith ar gydraddoldeb penodol wedi ei gwblhau fel rhan o'r cynllun gaeaf hwn, ond nododd bwysigrwydd hyn wrth gyflawni'r cynllun.

Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r argymhellion o fewn yr adroddiad:

- Cymeradwyo Cynllun Gaeaf y Bwrdd a fydd yn cael ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar ôl y cyfarfod.
- Ymrwmo i fynd â Chynllun Gaeaf y bwrdd drwy brosesau gwleidyddol a llywodraethu lleol ac is-ranbarthol perthnasol
- Cymeradwyo'r cais i gynhyrchu cynllun gaeaf Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bob blwyddyn, i'w gwblhau a'i gytuno arno gan y Bwrdd erbyn mis Awst bob blwyddyn.

Strategaeth Dementia - Bethan Jones Edwards

Yn dilyn trafodaeth ar y Strategaeth Dementia yn gynharach eleni, cyflwynodd BJE y Strategaeth Dementia wedi ei diweddarau, a'r adroddiad yn manylu'r 3 diwygiad sydd wedi eu gwneud yn dilyn trafodaethau gyda JGa, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wreccsam a Chymdeithas Alzheimer's i fynd i'r afael â'r ymholiadau a godwyd.

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd heddiw yn cynnwys y Strategaeth Dementia, yr holl ddogfennau atodol ac adroddiad er mwyn i sefydliadau partner fynd trwy eu prosesau llywodraethu / gwleidyddol eu hunain

Cadarnhaodd JGa fod y trydydd sector yn gytûn y dylent gymeradwyo'r strategaeth a nododd hefyd bwysigrwydd y gwaith hwn ar gyfer y bwrdd. Diolchodd JGa hefyd i BJE a'r tîm ar yr holl waith oedd datblygu'r strategaeth wedi ei olygu.

Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r Strategaeth Dementia a'r Argymhellion:

- Nodi'r newidiadau i'r strategaeth ers i'r strategaeth gael ei chyflwyno gyntaf i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

- Rhannu'r gyfres gyfan o ddogfennau cefnogol y strategaeth ddementia gydag aelodau'r bwrdd gan gynnwys yr adroddiad ymgynghori, mapio gwasanaeth ac adroddiadau data cefndirol.
- I bartneriaid y Bwrdd gytuno i fynd â'r strategaeth a'r atodiadau drwy eu prosesau gwleidyddol / llywodraethu

6 Adeiladu Cymru Iachach (ACI)

Cafodd y bwrdd ddiweddariad gan TO am gynnydd y rhaglen ACI, gan ofyn i'r Bwrdd nodi'r cynnydd a chydabod cyfyngiadau cyfredol.

Dyweddodd TO bod dyraniad ailadroddus o £1.301 miliwn wedi ei wneud i PBC Gogledd Cymru gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparu'r tri maes rhaglen yng Ngogledd Cymru:

1. Cychwyn yn lawn
2. Gwell gyda'n Gilydd
3. Galluogi

Dyweddodd TO fod gwaith wedi ei wneud ar draws Gogledd Cymru ond fod y rhaglen wedi gweld oedi o ran gweithredu'r prosiectau oherwydd capasiti cyfyngedig o fewn y Tîm Iechyd Cyhoeddus wrth iddynt ganolbwyntio ar waith yn ymwneud â COVID a bod Arweinwyr Gwasanaethau a phartneriaid yn cael eu tynnu i mewn i gynllunio rhag argyfwng.

Fodd bynnag, o ystyried y cynnydd i ail sefydlu gwasanaethau hanfodol a gweithgarwch cynllunio, bydd y Cynllun ACI yn symud i 21/22, gan ddefnyddio'r dyraniad llawn.

Mae cyfle ymgysylltu o fewn ACI yn mynd yn ei flaen, a bydd diweddariadau pellach am y gwaith yn cael eu darparu yn y dyfodol.

Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo diweddariad ac adroddiad ACI, gan nodi risgiau a materion allweddol.

7 Y Gronfa Gofal Integredig (CGI)

Adroddiad Ch2 2020-21

Rhoddodd BJE ddiweddariad ar Chwarter 2 y Gronfa Gofal Integredig, 2020-2021 a chrynodeb o'r sefyllfa ar ddiwedd Medi gan nodi cymeradwyaeth gan y Bwrdd.

Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r 7 rhaglen gyllido a reolir gan CGI hyd at ddiwedd Medi 2020:

- Cynllun Buddsoddi Refeniw (CBR)
- Cynllun Buddsoddi Cyfalaf (CBC)
- Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI)
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC)
- Cynllun Peilot Ymyrraeth Therapiwtig (CPYT)
- Cynllun Rhyddhau Covid (CRC)
- Cynllun y Gaeaf (CG)

Dywedodd BJE wrth y Bwrdd mai'r wybodaeth o fewn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud â Chynllun y Gaeaf, oedd y cyllid Rhyddhau i Adfer / Asesu mewn gwirionedd. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau fod cyllid Cynllun y Gaeaf wedi bod ar gael yn y blynyddoedd diweddar.

Os oes unrhyw un eisiau gweld y daenlen sydd yn cael ei chyflwyno yn chwarterol i Lywodraeth Cymru, mae ar gael drwy'r Tîm Rhanbarthol.

Diolchodd TO i BJE a'r tîm am y gwaith ar yr adroddiad hwn

Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo Rhaglen Fuddsoddi CGI 2020/21 ac adroddiad cynnydd Chwarter 2 2020/21.

8 Grŵp Adfer Iechyd a Gofal (GAIaG)

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad llafar gan JG ar waith y Grŵp Adfer Iechyd a Gofal.

Yn dilyn y penderfyniad i oedi'r gwaith ar adfer, bydd allbwn cyfredol y Grŵp Adfer Iechyd a Gofal yn canolbwyntio ar gynllun y gaeaf o fewn ail don y pandemig, a'r wybodaeth iechyd a gofal a gynhyrchir o'r Celloedd Gwybodaeth a Data. Mae gwybodaeth o'r dangosfwrdd, sydd ond ar gael i aelodau grŵp cydgysylltu strategol (GCS) a'r Grŵp Adfer Iechyd a Gofal, yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar gapasiti ar draws y sector Iechyd a Gofal, gan gysylltu pob ysbyty ac adnabod pwyntiau sydd dan bwysau yn y system. Rhoddir diweddariadau rheolaidd i'r GCS.

Ar ran y sector darparwyr gofal, gofynnodd MWim, o ystyried y pwysau cyfredol parhaol, fod capasiti o fewn cartrefi yn cael ei ystyried wrth ddychwelyd at yr agenda adfer a pharhad cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Nododd y Cynghorydd BF fod y feirws yn cynyddu o fewn cartrefi gofal a gofynnodd a oedd y rhanbarth yn darparu'r holl gymorth posib i gynorthwyo'r sector i atal lledaeniad y feirws.

Mae cynlluniau'n cael eu hysgrifennu yn dilyn gwaith JB i gryfhau'r gwaith.

Nododd JG sylwadau BF a chadarnhaodd ar ôl dysgu gwersi, fod materion capasiti sydd angen mynd i'r afael â nhw yn rhai rhannau o'r system ac mae gwaith yn cael ei gwblhau gyda BIPBC ac Awdurdodau Lleol i reoli'r haint mor gyflym â phosib. Mae'r Grŵp Adfer Iechyd a Gofal yn ddiweddar wedi trafod a chomisiynu adroddiad brys yn amlinellu'r cymorth sydd yn ei le ar gyfer Cartrefi Gofal ar draws Gogledd Cymru.

Atgoffodd ME y bwrdd o'r gwaith a gwblhawyd ar ôl yr Athro John Bolton ym Mwrdd mis Medi. Roedd y cam gweithredu, gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd Yr Amgylchedd a rheoli haint, a ddarparwyd yn y cynllun gweithredu yn ataliol o ran natur ac yn rhoi sicrwydd i ymateb i'r ymateb cenedlaethol; beth rydym yn ei wneud yn dda, gwelliannau sydd eu hangen a materion sydd angen sylw penodol. Un o'r nodau allweddol yw peidio cynnal, a pharhau â'r gwaith hwn.

Cadarnhaodd JG hefyd fod yr holl Awdurdodau Lleol wedi ymrwmo i weithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal preifat drwy gydol y pandemig, a chadw trigolion yn ddiogel yw'r brif flaenoriaeth.

Rhoddodd MWim hefyd wybod am rai o broblemau parhaus y cartrefi gofal:

- Cartrefi gofal ddim yn sicr â phwy y dylent gysylltu am gymorth uniongyrchol mewn sefyllfa argyfyngus o ymlediad yr haint
- Profi wythnosol
- Adnewyddu yswiriant darparwyr

Roedd AJ yn credu y cynghorwyd Darparwyr ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw yn eu hardaloedd. Cytunodd AJ i ysgrifennu rhestr o gysylltiadau Awdurdod Lleol ar gyfer MWim.

Cam Gweithredu

- Rhestr o gysylltiadau brys ar gyfer Awdurdodau Lleol I MWim – AJ

9 Unrhyw Fusnes Arall

Dim byd i'w adrodd.

10 Er Gwybodaeth

Cafodd y dogfennau canlynol eu cynnwys er gwybodaeth:

- Adroddiadau Chwarter 2 Rhaglenni Trawsnewid
- Llythyr gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Llywodraeth Cymru - Covid-19: Dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol i Leoliadau Gofal Cymdeithasol
- Adfer ac Ail Osod Gwasanaethau Adsefydlu
- Llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd ynglŷn â Chanllawiau rhyddhau

11 Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Gwener 11 Rhagfyr 2020 – 9.00 – 11.00am